Community Lives Consortium

Supporting people to live the life they choose

# Tir Morfa




**Hydref 2025**

Consortiwm Bywydau Cymunedol

24 Heol Walter, Abertawe SA1 5NN

# Datganiad o Ddiben

| Adran 1: Ynglŷn â'r darparwr | |
|---|---|
| **Darparwr gwasanaeth** | Consortiwm Bywydau Cymunedol |
| **Strwythur cyfreithiol** | Cwmni elusennol |
| **Prif Weithredwr** | Nick Day |
| **Unigolyn Cyfrifol** | Lynda Rosselli |
| **Rheolwr gwasanaeth** | Michelle Griffiths |
| **Enw'r gwasanaeth** | Tir Morfa |
| **Cyfeiriad y gwasanaeth** | 57 Heol Tir Morfa, Port Talbot, SA12 7PF |

## Adran 2: Disgrifiad o leoliad y gwasanaeth

**Ynglŷn â Thir Morfa – Lleoliad a Llety**

Cafodd Tir Morfa adeiladu gan Gymdeithas Dai Dewi Sant yn 2002. Mae bellach yn rhan o Gymdeithas Coastal Housing.

Lleolir Tir Morfa yn ardal Sandfields o Bort Talbot ac mae'n fyngalo pwrpasol. Mae'r byngalo mewn clos bach ar y ffordd fawr bach gyda mynediad hawdd. Mae rhain flaen yr eiddo wedi'i dirlunio i hwyluso'r gwaith cynnal a chadw ac mae wal o'i gwmpas. Mae'r ardd gefn yn fawr ac yn hygyrch gyda lawnt a gwelyau blodau. Yng nghanol yr ardd ardal mae patio gyda bwrdd a chadeiriau dan gasebo mawr. Mae man eistedd ar yr ochr hefyd.

Mae man parcio mawr gyda chyfleuster parcio i 4 cerbyd.

Wrth fynd i mewn i'r byngalo, mae cyntedd mawr sy'n rhoi mynediad cadair olwyn mynediad i'r pedair ystafell gwely, y lolfeydd, ystafelloedd ymolchi, ystafell gawod, ystafell amlbwrpas, y gegin ac ystafell y staff.

Mae amrywiaeth o weithgareddau cymunedol yn y cwmpasoedd, fel Glannau Traeth Aberafan, siopau, bwytai, caffis, tafarnau, traethau, a chlybiau lleol.

Mae'r unigolion sy'n byw yn Nhir Morfa yn cael eu cefnogi i gymryd rhan yn eu gweithgareddau dewisol yn yr ardal a'r cwmpasoedd.

Mae Tir Morfa yn cynnig cymorth 24 awr ac mae dau aelod staff o leiaf ar ddyletswydd bob amser i ddarparu'r cymorth hwn. Mae un aelod staff effro ac un aelod staff cysgu i mewn ar ddyletswydd bob nos hefyd. Mae'r rhan fwyaf o dîm y staff yn byw yn y gymuned leol ac yn gallu ymateb i unrhyw argyfyngau lle gallai fod angen staff ychwanegol.

Cefnogir Tir Morfa gan y Consortiwm Bywydau Cymunedol. Mae Gwasanaethau Ar Alw yn gweithredu y tu allan i oriau swyddfa. Mae'r gwasanaeth hwn yn galluogi staff i siarad ag uwch reolwr a gofyn am gymorth a chyngor yn ôl y galw.

Mae Tir Morfa wedi'i gofrestru ar gyfer Oedolion gyda Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol.

Nid yw'r cartref wedi'i gofrestru i ddarparu Gofal Nyrsio er y gellid gwneud trefniadau i nyrs ardal alw i ymweld pan fod angen.

Mae Nhir Morfa yn darparu gwasanaethau yn ardal bwrdd partneriaeth rhanbarthol Bae'r Gorllewin.

# **Adran 3** Ynglyn â'r gwasanaeth a ddarperir

## Ynglŷn â'r amrywiaeth o anghenion y gallwn eu cefnogi

Mae Nhir Morfa yn darparu cymorth i unigolion dros 18 oed sydd â'r cyflyrau canlynol:

- Unigolion ag Anabledd Dysgu
- Unigolion ag Epilepsi
- Unigolion â Dementia
- Unigolion ag Anableddau Corfforol.

***Rydym yn cefnogi unigolion i reoli 'r anghenion gofal ac iechyd canlynol.***

### *Meddyginiaeth*



Mae'r unigolion yn cael cynllun cymorth meddyginiaeth personol, asesiad risg a defnyddir dalen MARR i gofnodi gweinyddu meddyginiaeth. Caiff y feddyginiaeth ei storio mewn cabinetau meddyginiaeth a leolir yn ystafell wely'r unigolyn.

- ***Gwasanaethau Arbenigol***: Rydym yn cysylltu'n rheolaidd â'n fferyllydd lleol ynghylch presgripsiynau, sgil effeithiau, a chyngor ac arweiniad cyffredinol. Mae'r unigolion hefyd yn cael mynediad at weithwyr gofal iechyd proffesiynol fel y meddyg teulu, Seiciatrydd a Nyrs Gymunedol

### *Gofal personol*

Mae'r unigolion yn cael eu Cynlluniau Gofal personol a phreifat sy'n disgrifio'r math o gymorth sydd eu angen arnynt, fel: bathio, gwisgo ac ymdwtio personol. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn cynnwys iechyd y croen ac maer holl gynlluniau'n cael eu hadolgu'n rheolaidd.

- ***Gwasanaethau Arbenigol***: Mae'r unigolion yn cael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau fel Nyrsys Ardal, Meddyg Teulu, Ciropodydd, Deintydd, Triniwr Gwallt ac Optegwyr.

### *Symudedd*

Mae'r unigolion yn cael ei cynllun cymorth symud a thrin ac asesiad risg personol. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn cynnwys y defnydd o declynnau codi, bathiau arbenigol, gwelyau, cadeiriau, cymhorthion cerdded a chadeiriau olwyn.

- ***Gwasanaethau Arbenigol***: Mae'r unigolion sy'n yn Nhir Morfa yn cael mynediad at Ffisiotherapyddion,

Therapyddion Galwedigaethol a hyfforddwyr symud a thrin ein sefydliad sy'n gallu ymateb yn gyflym i adolygu a diwygio cynlluniau cymorth ac asesiadau risg o ganlyniad i newid yn anghenion y person.

### *Deiet*

Mae'r unigolion yn cael eu cynllun bwyta ac yfed ac asesiad risg personol sy'n disgrifio'u hanghenion iechyd a deiet ynghyd â'r math o cymorth sydd ei angen arnynt i'w helpu i gadw at ddeiet iach.

- ***Gwasanaethau Arbenigol***: Mae'r unigolion yn cael mynediad at Therapyddion lleferydd ac iaith, dietegwyr a nyrsys diabetes. Mae staff Tir Morfa wedi'u hyfforddi i hybu deiet iach.

### *Cyfathrebu*

Mae gan unigolion Lyfr Gwaith Amdanaf I, sy'n cael ei integreiddio i gynllun personol yr unigolyn a ddefnyddir i ddisgrifio unrhyw anghenion cyfathrebu sydd ganddynt.

- ***Gwasanaethau Arbenigol***: Mae'r unigolion yn cael mynediad at therapyddion Lleferydd ac Iaith sy'n cynnig cyngor ynghylch amrywiol strategaethau cyfathrebu. Mae staff Tir Morfa wedi'u hyfforddi yn y dechneg o gyfathrebu cynhwysol ac mae hyn yn eu galluogi i ddefnyddio cymhorthion cyfathrebu a chynhyrchu gwybodaeth a recordiadau hygyrch.

### *Cymorth Ymddygiadol Cadarnhaol*

Os oes angen, mae'r  unigolionyn cael cynlluniau Cymorth Ymddygiad,  canllawiau rheoli ac asesiad risg. Mae'r staff cymorth yn defnyddio'r cynlluniau hyn i helpu unigolion i reoli eu lles seicolegol. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu yn rheolaidd i adlewyrchu unrhyw newidiadau ac i hybu cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol.

- ***Gwasanaethau Arbenigol***: Mae'r unigolion yn cael mynediad at Nyrsys Cymuned, Seiciatrydd ac mae staff Tir Morfa wedi'u hyfforddi mewn Rheooli Ymddygiadol Cadarnhaol. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys theori ac agweddau ymarferol rheoli ymddygiad.

Caiff cynlluniau cymorth personol unigolion ac asesiadau risg eu hadolygu bob chwarter.
Pan fod unrhyw newidiadau i anghenion gofal ac iechyd, rydym yn gallu gofyn am gymorth ychwanegol gan Reolwyr Gofal yr Awdurdod Lleol a'r darparwyr gofal iechyd sylfaenol.

Rydym hefyd yn gallu bod yn hyblyg a cefnogi unigolion pan fod angen mwy o gefnogaeth arnynt yn Nhir Morfa neu os ydynt wedi mynd i'r ysbyty, ar ôl trafod a chytuno gyda'u Rheolwyr Gofal.

| | |
|---|---|
| **Ystod oedran y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth** | **18 oed a throsodd** |
| **Gwasanaethau Seiliedig ar Llety** | **Capasiti Mwyaf – 4 person** |
| **Nifer yr oriau gofal a gyflwynir** | **251 i 500 awr yr wythnos** |

## Adran 4: Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu

Mae Nhir Morfa yn darparu cymorth i unigolion dros 18 oed sydd â'r cyflyrau canlynol:

- **Unigolion ag Anabledd Dysgu**
  Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar y person i gefnogi'r unigolion, yn cynnwys Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol, Symud a Thrin, a rheoli Meddyginiaeth.

- **Unigolion ag Epilepsi**
  Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi mewn Epilepsi a gweinyddu meddyginiaeth frys. Bydd Proffil Epilepsi yn cael ei ddyfeisio mewn partneriaeth â Nyrs Gymunedol. Bydd y staff yn sefydlu Cynlluniau Cymorth ac Asesiadau Risg.

  Gallwn ddarparu technoleg gynorthwyol fel synwyryddion gwely i rybuddio staff a monitro patrymau strôc.

- **Unigolion â Dementia**
  Mae staff yn Nhir Morfa yn cael hyfforddiant dementia sy'n canolbwyntio ar y person. Rydym hefyd yn cael cymorth gan y Therapydd Lleferydd ac Iaith ac mae'r unigolion yn mynediad at Glinig y Cof.

- **Unigolion ag Anableddau Corfforol.**
  Mae gan Dir Morfa addasiadau fel tracio uwchben, ystafell wlyb, gwelyau Uchel/Isel sy'n galluogi unigolion ag anableddau corfforol i gael eu cynnal yn gyffyrddus. Rydym hefyd yn gallu cyrchu amrywiaeth â offer technoleg gynorthwyol i cefnogi unigolion i fod yn fwy annibynnol neu i alw am gymorth. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi mewn Symud a Thrin, ac Iechyd a Diogelwch.

**Trefniadau ar gyfer derbyn, asesu, cynllunio ac adolygu gofal pobl**

Pan wneir atgyfeiriad ar gyfer person newydd sy'n derbyn cymorth, cynhelir nifer o gyfarfodydd gyda'r Rheolwr Gofal, aelodau o deulu'r person, cynrychiolwyr o'r Consortiwm Bywydau Cymunedol ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig.

Bydd pobl yn gallu ymweld â'r eiddo i asesu ei addasrwydd ar gyfer yr unigolyn hwn. Bydd y Consortiwm hefyd yn cynnal asesiad cyd-dynnu i ddeall sut fydd y person yn cyd-dynnu â'r tenantiaid eraill. Mae'r bobl a gefnogwn yn cael eu cyflwyno i'w darpar gydletywr newydd i ddechrau'r broses ‘dod i'ch adnabod’. Mae hyn yn dechrau drwy ymweliadau tîm, yna'n raddol i arosiadau dros nos, wedyn ymweliadau penwythnos. A phan fydd pawb sydd ynghlwm yn teimlo bod yr amser yn iawn, bydd dyddiad symud i mewn yn cael ei drefnu. Weithiau gall y broses hon gymryd yn hirach nag mewn achosion eraill. Rydym bob amser yn gweithio yn ôl cynllun clir sydd yn ei le ar gyfer y broses hon.

 *‘Mae Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a allai rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio’ v10*

**Meini Prawf Mynediad:-**

- Atgyfeiriad gan yr Awdurdod Lleol
- Anabledd Dysgu, Anableddau Corfforol fel y Cyflwr Sylfaenol
- Asesiadau a gynhelir fel rhan o'r broses amlddisgyblaethol ac yn unol â pholisi Derbyn a Cychwyn Consortiwm Bywydau Cymunedol

**Rheolwyr Gofal**

Mae pob person sy'n derbyn cymorth yn cael mynediad at Reolwr Gofal neu gellir cysylltu â'r Reolwr Gofal ar fdyletswydd yn absenoldeb Rheolwr Gofal. Fel arfer, mae'r bobl hyn yn Weithiwr Cymdeithasol o'r Tîm Cymorth Cymunedol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Mae Rheolwyr Gofal yn trefnu adolygiadau rheolaidd o gynlluniau pob defnyddiwr gwasanaeth ac maen nhw hefyd yn monitro Cynlluniau Gofal Unigol a Chytundebau Gwasanaethau Unigol.

Mae Rheolwyr Gofal hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad cynllunio Asesiadau a Gofal Unedig.

Mae Tîm Anabledd Dysgu Castell-nedd Port Talbot ar gael i ddarparu cymorth ychwanegol i unigolion yn Nhir Morfa, os a phyrd mae eu hanghenion yn newid, fel:

- Bwyta ac Yfed â Chymorth I ddarparu cymorth i unigolion sydd ag anawsterau gyda llyncu a rhwystrau wrth fwyta ac yfed.
- Nyrs Gymunedol : I ddarparu cymorth gyda newidiadau mewn ymddygiad/iechyd/meddyginiaeth/cyngor ar anghenion gofal.
- Therapydd Galwedigaethol: I ddarparu cymorth ac offer at ddibenion symudedd
- Ffisiotherapydd: I ddarparu cymorth ar ymddaliad/adferiad
- Cyfathrebu Cynhwysol: I ddarparu cymorth ar gyfathrebu dwys/technegau cyfathrebu a goresgyn rhwystrau i gyfathrebu.
- Seiciatrydd: I ddarparu cymorth ar iechyd meddwl a lles/meddyginiaeth ac adolygu anghenion iechyd.
- Nyrsys Ardal: I fonitro iechyd y croen/iechyd a lles
- Y Tîm Acíwt: I ddarparu cymorth i osgoi mynd i'r ysbyty, hylifau IV, monitro anghenion iechyd a lles.
- Gweithiwr Cymdeithasol: I sicrhau bod lles ac anghenion yn cael eu bodloni. I ddarparu cymorth i gefnogi unigolion i gyflawni eu nodau. I ddyfeisio asesiadau unedig i sicrhau bod anghenion gofal yn cael eu bodloni.

## Safon gofal a chymorth

**Bod mor gorfforol, meddyliol ac emosiynol iach â phosibl**

Bydd unigolion yn Nhir Morfa yn cael eu cefnogi gan staff i gymryd rheolaeth dros eich hanghenion iechyd personol – gallai hyn gynnwys rheoli eu meddyginiaeth, a'u hannog yn weithredol i wneud dewisiadau bywyd iach.

Bydd y staff yn helpu'r unigolion sy'n byw yn Nhir Morfa i fynychu eu holl apwyntiadau iechyd, yn cynnwys eu Harchwiliad Iechyd Blynyddol. Bydd y staff yn cynnal ac yn diweddaru'r holl gofnodion perthnasol cysylltiedig ag iechyd.

Bydd y Rheolwr y Cartref Gofal Cofrestredig a'r staff yn Nhir Morfa yn cysylltu â'r Rheolwyr Gofal i atgyfeirio unigolion sydd â pryderon iechyd penodol. Gall y rhain gynnwys Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion a fydd yn sicrhau bod yr unigolion yn Nhir Morfa yn cael y cyngor iechyd a'r offer cywir e.e. offer synhwyraidd, cymhorthion cyfathrebu, offer symud a thrin.

Mae cynlluniau ac asesiadau cysylltiedig â chymorth iechyd yn cael eu cwblhau a'u hadolygu yn rheolaidd ar gyfer yr unigolion yn Nhir Morfa. Mae cofnodion yn cael eu cadw i fonitro iechyd meddwl a lles corfforol fel y bo'n briodol e.e. gweithgaredd strôc, cymeriant hylif, siartiau arsylwi ar ymddygiad.

**Cynnal perthnasoedd teulu a phersonol**

Bydd y staff yn Nhir Morfayn yn cefnogi unigolion i gynnal perthnasau teulu a phersonol yn weithredol drwy:

- gynnal perthnasoedd parhaus gyda pherthnasau fel y byddwch yn teimlo eich bod yn cyfranogi trwy gytundeb cynnwys perthnasau
- rhoi dewisiadau ynglŷn â sut hoffai unigolion gynnal perthnasoedd e.e. ymweliadau, galwadau ffôn, e-bost, cyfryngau cymdeithasol, ysgrifennu llythyrau, cynllunio digwyddiad cymdeithasol
- bydd staff yn helpu unigolion i gynnal perthnasoedd presennol a datblygu perthnasoedd newydd trwy ymuno â grwpiau cymunedol lleol sy'n seiliedig ar ddiddordebau cyffredin
- cefnogi unigolion i fwynhau perthnasoedd personol agos o'u dewis nhw mewn amgylchedd diogel a sicr.

**Bod a theimlo'n ddiogel**

Mae'r staff yn Nhir Morfa yn ymrwymedig i gadw unigolion yn diogel a byddant yn gwneud hyn drwy:

- weithio o fewn ein Polisi Diogelu a chydymffurfio â gweithdrefnau Diogelu Awdurdodau Lleol
- cymryd rhan mewn hyfforddiant ar Ddiogelu ac ar sut i adnabod ac adrodd am amheuon a honiadau o gam-drin
- gweithio o fewn ein Polisi Cyllid. bydd y staff a'r rheolwyr yn helpu unigolion i reoli eu harian i leihau'r risg o gam-drin ariannol ac ecsbloetio.
- darparu copi o'n gweithdrefn gwyno a chanmol mewn fformat hygyrch.
- gweithio o fewn ein Polisi Iechyd a Diogelwch i hybu cartref a gweithle diogel ac iach i bob unigolyn ac aelod staff. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd.
- darparu cynlluniau cefnogi/asesu risg personol i ddarparu ar gyfer anghenion unigol sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru pan fod angen.

 *'Mae Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a allai rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' v10*

- sicrhau bod asesiadau Technoleg Gynorthwyol yn cael eu cynnal i ddarparu cyfarwyddyd, gwybodaeth ac offer wedi'u teilwra'n arbennig i anghenion unigol er mwyn hybu diogelwch. Mae hyn yn cynnwys synwyryddion ar ddrysau; synwyryddion epilepsi; monitorau symudiad ac ati.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau, hobïau, diddordebau unigol a mynediad at gyfleoedd datblygu**

Bydd pob unigolyn yn Nhir Morfa yn cael Asesiad sy'n Canolbwyntio ar y Person a fydd yn cynnwys eu diddordebau, hobïau, dyheadau a'u nodau datblygu. Bydd y staffyn gweithio gyda phob unigolyn i gynllunio sut i gyflawni'r canlyniadau hyn.

Mae unigolion yn Nhir Morfa yn defnyddio'r 'Model Cefnogi'n Weithredol' i gynnal sgiliau presennol a hybu dysgu sgiliau newydd. Mae hyn yn golygu cynllunio amrywiaeth o weithgareddau, fel tasgau domestig, hamdden, hobïau, gweithgareddau yn y gymuned leol. Efallai bydd y staff yn Nhir Morfa yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill fel y bo angen e.e. Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd.

Bydd y staff yn Nhir Morfa yn ymroi i hybu ac annog pob unigolyn i ymuno â'r amrywiaeth eang o gweithgareddau a digwyddiadau 'Time to Meet' a drefnirar y cyd â'r bobl a genfohir gan y Consortiwm Bywydau Cymunedol.

Gall y staff helpu unigolion i gynllunio gwyliau a thripiau diwrnod o'u dewis. Gellir darparu staff i fod yn gwmni i unigolion os oes angen.

Rydym yn hybu dysgu a datblygu cyfleoedd trwy:

- ddarparu cyfleoedd gofal dydd fel y cytunwyd yng nghynllun gofal personol yr unigolion.
- dod yn gyfrifol am drefnu gweithgareddau gyda'r tîm gweinyddu 'Time to Meet'.

**Cynnal eich cyfathrebu, iaith a diwylliant**

**Cyfathrebu cynhwysol**

Mae'r staff yn Nhir Morfa yn hybu ac yn defnyddio'r 'Model Cyfathrebu Cynhwysol' i gyfathrebu yn yr iaith a'r dull sydd fwyaf priodol i bob unigolyn. Gallai hyn gynnwys cyfieithu, lluniau, arwyddion, cardiau fflachio, amlgyfryngau, gwrthrychau cyfeiriol ac ati. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi yn y dull hwn. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â therapyddion lleferydd ac iaith i gynnal asesiadau a datblygu cynllun cyfathrebu unigol i'r unigolyn.

**Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru**

Mae gan y Consortiwm Bywydau Cymunedol Bolisi'r Gymraeg sy'n sicrhau bod yr holl unigolion yn gallu derbyn cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallai hyn gynnwys;

- rhoi gwybodaeth hygyrch i chi am y sefydliad a'u cymorth yn y Gymraeg.
- cynnal cyfarfodydd am eich cefnogaeth yn y Gymraeg e.e. adolygiadau gwasanaeth,
- sicrhau bod staff a rheolwyr yn cyfathrebu ac yn cael sgyrsiau gyda chi a'ch cefnogwyr yn Gymraeg.
- defnyddio geiriau allweddol ac ymadroddion Cymraeg sy'n bwysig i chi
- Arwyddion Cymraeg yn y cartref. e.e. toiled, ystafell ymolchi,
- cadw cofnodion amdanoch chi a'r gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn yn ysgrifenedig yn Gymraeg.
- Gwiriwch a yw ymwelwyr â'ch cartref a gweithwyr proffesiynol eraill yn gallu cyfathrebu â chi yn Gymraeg. e.e. Meddygon Teulu, Rheolwyr Gofal
- sicrhau bod y cyfryngau Cymraeg o'ch dewis ar gael i chi (e.e. teledu, rhaglenni radio, llyfrau, papurau newydd, apiau cyfrifiadurol)
- cefnogi chi i ddysgu neu wella eich sgiliau Cymraeg fel un o'ch canlyniadau personol

Bydd y staff hefyd yn asesu ac yn helpu unigolion i fod ynghlwm wrth weithgareddau diwylliannol Cymraeg sydd o bwys iddynt.

- Gemau Rygbi Cymru
- Eisteddfodau
- Dydd Gŵyl Dewi
- Gwrando ar Gorau Meibion

Fel rhan o asesiad pob unigolyn am gymorth, bydd y staff yn helpu'r unigolion i archwilio agweddau o'u diwylliant personol ac unrhyw gredau crefyddol sy'n bwysig iddyn nhw.

Wedyn, bydd y staff yn Nhir Morfa yn cynllunio unrhyw gymorth sydd ei angen i fynegi eu hunaniaeth ddiwylliannol bersonol ac i ddilyn arferion crefyddol

Gallai hyn gynnwys:

- cefnogi'r unigolion i fynychu man addoli
- cynllunio bwydlenni yn unol â gofynion diet arbenning
- dewisiadau gofal personol i gynnwys defodau diwylliannol;
- neu wisgo dillad sy'n gysylltiedig â defodau crefyddol neu ddiwylliannol.

## Adran 5: Trefniadau Staffio

<table>
<tr><td>Niferoedd a chymwysterau'r staff</td><td>
Nick Day - Prif Weithredwr<br>Cymwysterau:-<br>2013 - Rheoli Prosiect Prince 2 - APMG Rhyngwladol<br><br>2009 - 2011 Gradd Sylfaen (FDA) Dysgu yn y Sector Addysg Gydol Oes - Prifysgol Canterbury Christchurch<br><br>1992 - 1994 Diploma Ôl-raddedig, Dylunio Cyfathrebu - Prifysgol y Celfyddydau Llundain<br><br>1987 - 1990 BA (Anrhydeddau) Dylunio Graffeg, Prifysgol Brighton<br><br>1986 - 1987 Sylfaen Celf a Dylunio, Prifysgol Brighton<br><br>
Lynda Rosselli – Unigolyn Cyfrifol<br>Cymwysterau:-<br>● Cymwysterau - NVQ Lefel 4 Gofal, NVQ Lefel 4 Rheolaeth, Dyfarniad<br>● Aseswr D32/33<br>● Diploma Proffesiynol BTEC Uwch mewn Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol<br>● Rheolwr Cofrestredig gydag AGGCC a Gofal Cymdeithasol Cymru ers 21/12/2007<br><br>
Dean Bromham - Rheolwr Ardal 5<br>Cymwysterau:<br>● Diploma Lefel 5 QCF Arwain mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>● Dyfarniad aseswyr lefel 3 TAQA<br>● Tystysgrif Hyfforddwr Allweddol; Hyfforddwyr Trin Pobl ac Asesu Risg;<br>● Cofrestrwch gyda Gofal Cymdeithasol Cymru<br><br>
Michelle Griffiths - Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig<br>Cymwysterau:-<br>● Diploma Lefel 5 QCF Arwain mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>● Lefel 5 Addysg Gofal Cysylltiol<br>● Dyfarniad aseswyr A1<br><br>
Staff Cymorth - Ar hyn o bryd mae 10 o staff cymorth yn gweithio yn Nhir Morfa.
</td></tr>
<tr><td>Lefelau staff</td><td>Mae swm a lefel y cymorth sydd ei angen ar unigolion yn cael ei asesu'n unigol. Wedyn byddwn yn datblygu cynllun i fodloni anghenion y person ar gyfer cymorth dydd a nos. Bydd hyn yn cael ei gytuno gyda'r person chi a'u cefnogwyr a bydd yn cynnwys cyfuniad o gymorth unigol ac a rennir. Lle mae cymorth y person wedi'i gomisiynu gan awdurdod lleol neu ddarparwr iechyd, Mae rota ar gyfer dyrannu staff iw cefnogi yn cael ei drefnu ar sail y</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | cynllun hwn. Byddwn yn sicrhau bod gan y staff a'r rheolwyr yr hyfforddiant, sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i gefnogi'r person yn effeithiol ac yn ddiogel, yn cynnwys bodloni unrhyw anghenion cymorth arbenigol sydd ganddynt.<br><br>Mae Tir Morfa yn darparu gofal a chymorth 24 awr. Mae Tir Morfa yn darparu cymorth yn ystod y dydd i ddarparu ar gyfer anghenion unigol, ac aelod staff effro yn ystod y nos i ddarparu ar gyfer anghenion unigol yn ystod y nos.<br>● Mae'r Consortiwm yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am sicrhau bod cymorth staff yn cael ei ddarparu ar y swm, amlder a chymhareb gywir i Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig y gwasanaeth.<br>● Bydd y Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig yn cynhyrchu rotâu staff wythnosol o leiaf 4 wythnos ymlaen llaw. Ble bo'n bosibl, bydd y bobl a gefnogwn yn derbyn y rotâu hyn mewn fformat hygyrch.<br><br>Bydd y Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig yn cwblhau taflen amser fisol drwy'r system Roster ar ddiwedd bob mis i ddangos yr oriau unigol a weithiwyd gan bob aelod staff ac unrhyw absenoldeb oherwydd salwch, gwyliau blynyddol neu resymau eraill.<br><br>Am y manylion llawn, dylech gyfeirio at ein polisi 'Rheoli Rotâu'.<br>● Ni fydd disgwyl i'r bobl a gefnogwn arwyddo unrhyw system taflenni amser i gadarnhau presenoldeb staff. Bydd taflenni amser yn cael eu hawdurdodi gan y rheolwr dynodedig.<br><br>Mae'r Consortiwm yn cydnabod pa mor bwysig yw hi fod gan y bobl a gefnogwn bobl maen nhw'n eu hadnabod ac y gallant ymddiried ynddynt i'w cefnogi. Pan fod staff yn absennol am gyfnod, mae gan y Consortiwm weithdrefnau a pholisi yn eu lle i sicrhau parhad.<br><br>Bydd Rheolwr y Cartref Gofal Cofrestredig yn ceisio cyflenwi yn ystod salwch ac absenoldebau eraill yn gyntaf drwy ddefnyddio staff sydd eisoes yn gweithio gyda phobl rydym yn eu cefnogi, fel y rhestrir yn y Canllaw i Ddefnyddwyr Gwasanaeth.<br><br>Lle nad yw'r staff hyn ar gael, bydd staff achlysurol/asiantaeth rheolaidd yn cael eu defnyddio, dylai'r staff hyn fod yn hysbys i'r bobl rydym yn eu cefnogi eisoes a dylent hefyd fod wedi'u rhestru yn y Canllaw Gwasanaeth.<br><br>Gallwn fod yn greadigol a chysylltu â'n rheolwyr wrth ddefnyddio staff eraill yn ein Bro.<br><br>Tu allan i oriau – gall staff gael mynediad i'n system 'Ar alwad' a ddarperir gan 1 Rheolwr profiadol gyda'r nos neu ar benwythnosau |

| | |
|---|---|
| | i gysylltu ag ef mewn perthynas ag argyfwng. Gallant gael cymorth, cyngor a chyfeiriad ychwanegol ynghylch lefelau staffio gan Reolwyr Ardal rota. Wrth wneud hyn mae staff yn dilyn ein Polisi Ar Alwad / Ymateb.<br><br>Mewn amgylchiadau eithafol, bydd staff yn dod i mewn o wasanaethau eraill neu'r asiantaeth ehangach. |
| **Staff arbenigol** | Nidd oes unrhyw o'r rhain yn cefnogi pobl sy'n byw yn Nhir Morfa |
| a) **Adleoli staff yn y gwasanaeth (ar gyfer gwasanaethau mewn llety yn unig)** | **Strwythur Staff**<br>**Cartref Gofal Cofrestredig**<br>**Tir Morfa**<br><br>**Nick Day**<br>**Prif Weithredwr**<br>↓<br>**Lynda Rosselli**<br>**Unigolyn Cyfrifol**<br>↓<br>**Dean Bromham**<br>**Rheolwr 5 Ardal**<br>↓<br>**Michelle Griffiths**<br>**Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig**<br>↓<br>**(Swydd wag)**<br>**Dirprwy Reolwr Cartref Gofal**<br>↓<br>**Staff Cymorth x 10**<br><br>Mae o leiaf dau aelod o staff cymorth ar ddyletswydd yn gweithio sifftiau amrywiol rhwng 7 a.m. - 10 p.m 7 diwrnod yr wythnos.<br><br>Mae hefyd dau aelod staff ar ddyletswydd rhwng 10pm a 7am (1 aelod staff effro ac 1 yn cysgu i mewn) 7 diwrnod yr wythnos. |

 *'Mae Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a allai rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio'* *v10*

| | |
|---|---|
| | Caiff y rota ei adolygu bob dydd i adlewyrchu anghenion, gweithgareddau, a diddordeb newidiol yr unigolion. Mae hyn yn golygu y gall y gymhareb staff gael ei chynyddu i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau. |
| **Trefniadau ar gyfer tasgau dirprwyedig** | Pan fod angen tasgau gofal iechyd arbenigol, e.e. gweinyddu Buccolam Midazolam (epilepsi), bydd gweithwyr iechyd proffesiynol allanol perthnasol yn arwain yr asesiadau risg a'r cynllunio cymorth cyn i'r tasgau hyn gael eu dirprwyo i staff. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant arbenigol, cyngor, cyfarwyddyd a monitro a ddarperir gan weithiwr iechyd proffesiynol allanol e.e. Nyrs Gymunedol. |
| **Trefniadau goruchwylio** | Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gymryd rhan mewn sesiynau goruchwylio chwarterol. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gymryd rhan mewn sesiynau gwerthuso blynyddol gyda Rheolwr y Cartref Gofal Cofrestredig.<br>Nod goruchwylio yw helpu staff i fyfyrio ar eu harfer a gwneud yn siŵr bod eu cymhwysedd proffesiynol yn cael ei gynnal, mae hyn yn cynnwys adborth am eu perfformiad wrth ddarparu cymorth a monitro cynnydd yn eu dysgu a'u datblygiad eu hunain. |
| **Hyfforddiant staff** | Mae'r anghenion hyfforddi yn cael eu hasesu ar gyfer pob aelod o'r staff yn unigol, yn dibynnu ar yr amrywiaeth o anghenion gofal sydd gan y bobl benodol maen nhw'n eu cefnogi. Gall hyn gynnwys y rhestr ganlynol:<br>• Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol<br>• Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol<br>• Anhwylder Sbectrwm Awtistig<br>• Meddyginiaeth<br>• Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu<br>• Cymorth Cyntaf<br>• Diogelu<br>• DoLs / Gallu Meddyliol<br>• Bwndel croen<br>• Rheoli heintiau<br>• Ymwybyddiaeth Diogelwch Tân<br>• Hylendid bwyd<br>• Cyfathrebu Cynhwysol<br>• GDPR |

| | |
|---|---|
| | ● Cwynion<br>● Iechyd a Diogelwch<br><br>Nod ein rhaglen hyfforddi staff yw sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi gan staff medrus a chymwysedig, sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i fodloni eu hanghenion cymorth penodol a'u hoff ddewisiadau, a'u helpu i symud ymlaen yn eich bywyd.<br><br>Rheolir y rhaglen hyfforddi gan y Tîm Datblygu Staff, sy'n gweithio gyda rheolwyr gweithredol i sicrhau bod anghenion dysgu a datblygu'r holl staff a rheolwyr yn cael eu diwallu.<br><br>Mae hyn yn cynnwys:-<br><br>● **Sefydlu** - Mae'r holl weithwyr newydd yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu. Ar gyfer y staff cymorth a'r rheolwyr, mae hyn yn bodloni'r safonau sefydlu a bennir gan Ofal Cymdeithasol Cymru. Mae ymsefydlu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF) yn cynnwys cyfuniad o fynychu cyrsiau, hyfforddiant 'yn y gwaith', a chwblhau cyrsiau ar-lein.<br><br>● **Hyfforddiant penodol sy'n gysylltiedig â chymorth unigol -** Mae'n rhaid i'r holl staff ddilyn rhaglen o hyfforddiant ychwanegol a gynlluniwyd i roi'r wybodaeth a'r sgiliau penodol sydd eu hangen arnynt i ddarparu cymorth effeithiol a diogel sy'n canolbwyntio ar y person. Mae hyn yn seiliedig ar eich anghenion cymorth personol, ond gall gynnwys amrywiaeth eang o gyrsiau fel:<br>o Rheoli Epilepsi<br>o Deall ac ymateb i Ddementia<br>o Gwneud Penderfyniadau a Gallu Meddyliol<br>o Sgiliau Cymraeg<br><br>● **Hyfforddiant Diweddaru** - Mae'n rhaid i rai mathau o hyfforddiant gael eu diweddaru'n rheolaidd e.e. Diogelu, Meddyginiaeth, Cymorth Cyntaf, Diogelu Data, Iechyd a Diogelwch, Symud a Thrin.<br><br>Mae rhaglen flynyddol o gyrsiau y gall staff eu mynychu neu gyrsiau ar-lein y gallant eu cwblhau, i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'u gofynion hyfforddi. |

Mae'r cyrsiau'n cael eu darparu gan gyfuniad o reolwyr mewnol sydd â chymwysterau hyfforddi ychwanegol (e.e. symud a thrin), gweithwyr proffesiynol iechyd (e.e. SALT) neu gan hyfforddwyr allanol cymeradwy eraill (e.e. Cymorth Cyntaf)

Mae gennym ein gwefan ddysgu ar-lein ein hun, 'Time to Learn', ac ar hyn o bryd rydym yn llunio portffolio o gyrsiau ac adnoddau dysgu y gall staff eu cyrchu ar unrhyw adeg i gefnogi eu dysgu a'u datblygu.

**Cymwysterau** - Mae gennym raglen gynhwysfawr ar gyfer staff cymorth a rheolwyr i'w helpu i ennill y cymwysterau galwedigaethol a argymhellir ar gyfer eu swydd, yn unol â Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru.




Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â cholegau lleol i gynnig y cymwysterau hyn i staff.

**Cynllunio Datblygu Personol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus -** Mae Cynllun Datblygu Personol yr holl staff yn cael ei drafod a'i gofnodi yn ystod eu Goruchwyliaeth lle mae eu hanghenion dysgu a datblygu a'u dyheadau yn cael eu nodi a'u cofnodi.

Mae cynnydd yn nysgu a datblygiad staff yn cael ei fonitro trwy'r broses oruchwylio ac arfarnu, gyda'r Cynllun Datblygu Personol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ym mhob sesiwn oruchwylio.



Mae'r holl gyrsiau hyfforddi a fynychwyd a chyrsiau ar-lein a gwblhawyd yn cael eu cofnodi gan y tîm Dysgu a Datblygu a rhennir y wybodaeth hon gyda Rheolwr y Cartref Gofal Cofrestredig a'r Rheolwr Ardal.

| Adran 6: Cyfleusterau a gwasanaethau | |
|---|---|
| ***Nifer yr ystafelloedd sengl ac a rennir*** | Mae gan ***Dir Morfa*** bedair ystafell wely sengl.<br>Mae **Ystafell Wely Un** yn mesur 12’3” x 9’ ac mae'n wynebu rhan flaen y byngalo. Mae basn ymolchi yn yr ystafell hon.<br>Mae **Ystafell Wely Dau** yn mesur 13’1” x 9’ ac mae'n wynebu rhan flaen y byngalo. Mae tracio uwchben a theclyn codi yn yr ystafell hon.<br>Mae **Ystafell Wely Tri** yn mesur 12’3” x 13’ ac mae'n wynebu tu cefn yr eiddo, sy'n edrych dros yr ardd gefn. Mae tracio uwchben a theclyn codi yn yr ystafell hon.<br>Mae **Ystafell Wely Pedwar** yn mesur 9’1” x 10’ ac mae'n wynebu tu cefn yr eiddo, sy'n edrych dros yr ardd gefn.Mae'n cynnwys tracio uwchben a theclyn codi hefyd. Mae basn ymolchi yn yr ystafell hon. |
| **Nifer yr ystafelloedd sydd â chyfleusterau en-suite** | Mae gan **Ystafell Wely Dau** ystafell wlyb en-suite gyda chawod â sedd a chanllaw. Mae ynddi fasn ymolchi a thoiled hefyd.<br>Mae gan **Ystafell Wely Tri** ystafell ymolchi en-suite. Mae’n cynnwys bath Malibu uchel/isel gyda sedd fath yn sownd wrtho. Mae sinc uchel/isel hefyd, gyda drych yn swond wrtho a thoiled Closomat. Mae rheiliau llaw a wal a hefyd tracio uwchben. |
| **Nifer y mannau bwyta** | Mae un cegin/ystafell fwyta fawr cymunedol sy'n mesur 19’ x 23’.<br>Mae yno gegin lawn gydag oergell integrol, rhewgell integrol, ffwrn ddwbl ffwrn a hob a pheiriant golchi llestri gosod.<br>Yn y man bwyta mae dresel a bwrdd bwyta mawr. |
| **Nifer y mannau cymunol** | Mae gan **Dir Morfa** lolfa fawr yn mesur 17’ x 15’. Mae'n cynnwys soffa tair sedd a chadair gyffyrddus.<br>Mae cegin/man bwyta cymunedol.<br>Mae'r cyntedd cymunedol mawr yn Nhir Morfa yn mesur 47’ x 17’. Mae'r holl ystafelloedd yn agor oddi ar y cyntedd.<br>Mae ystafell amlbwrpas cymunedol sy'n mesur 14’ x 6’ ac yn cynnwys peiriant golchi mawr, peiriant sychu dillad, sinc â bwrdd diferu a chwpwrdd. Mae'r ystafell hefyd yn cynwys cwpwrdd cerdded i mnewn mawr sy'n dal y boeler nwy.<br>Mae'r ystafell gawod a ystafell ymolchi er defnydd cymunedol ar gyfer y staff a'r defnyddwyr gwasanaethau. |
| **Cyfleusterau bathio arbenigol** | Mae'r ystafell ymolchi en-suite yn cynnwys cyfleusterau bathio arbenigol yn cynnwys bath uchel/isel, sinc uchel/isel a thoiled Closomat. Mae teclyn codi a thracio uwchben hefyd. |

| | |
|---|---|
| **Offer arbenigol** | Mae tracio uwchben yn y lolfa gymunedol, un ystafell ymolchi a thair o'r ystafelloedd gwely yn Nhir Morfa. |
| **Y trefniadau sicrwydd sydd yn eu lle a'r defnydd o CCTV** | Mae'r cynllun yn cynnwys larwm Tresmaswr sydd wedi'i gysylltu â chanolfan alw Lifeline.<br>Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system larwm a'r system gloi'e eiddo yn ddiogel pan fydd yn wag.<br>Mae arian yn cael ei gadw'n ddiogel mewn coffor.<br>Mae'r holl gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei chadw'n ddiogel dan glo. |
| **Mynediad i'r mannau a'r cyfleusterau tu allan yn y gwasanaeth hwn** | Mae rhain flaen yr eiddo wedi'i dirlunio i hwyluso'r gwaith cynnal a chadw ac mae wal o'i gwmpas. Mae yno welyau blodau uchel sy'n hawdd eu cyrraedd ac sy'n cynnwys gwelyau tymhorol. Mae parcio i 4 neu 5 cerbyd.<br>Y tu ôl i'r eiddo, mae gardd fawr gyda lawnt a mannau wedi'u tirlunio. Mae man palmantog hefyd gyda dodrefn patio ac ambarél haul mawr haul ar gyfer y Defnyddwyr Gwasanaethau, pan fo'r tywydd yn caniatáu.<br>Wrth ochr y byngalo, mae man eistedd tan orchudd gyda gwelyau blodau uchel a sied ardd.<br>Mae garddwr lleol yn gofalu am y gerddi. |

## Adran 7: Llywodraethu a threfniadau monitro ansawdd

**Ein pwrpas yw ‘Cefnogi Pobl i fyw'r bywydau maen nhw'n eu dewis’**

Mae’r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn sefydliad seiliedig ar aelodaeth gyda 194 o aelodau; ymhlith yr aelodau hyn, mae:

- 42 o bobl a gefnogwn
- 18 o aelodau teulu
- 31 o bobl a gyflogwn
- 98 o bobl annibynnol.
- 5 asiantaeth broffesiynol

Mae'r bobl hyn yn ethol ein Pwyllgor Rheoli yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mae gan ein Pwyllgor Rheoli le i 12 aelod:

- 1 yn Denant, 1 yn aelod o'r teulu; Mae 6 yn unigolion annibynnol, mae gennym ni 1 swydd wag ar gyfer aelod o'r teulu; 1 swydd wag ar gyfer aelod o staff a 2 le gwag i Denantiaid.

Ein Cadeirydd yw **Ian Davies**.

Mae ein Pwyllgor Rheoli yn cysylltu â'r isgrwpiau *Tenants Lives* a *Managing the Consortium* i gasglu barnau a gwybodaeth o bob rhan o'r sefydliad ynglŷn ag ansawdd ein gwasanaeth. Mae gennym hefyd Bwyllgor Iechyd a Diogelwch sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae ein staff a'n rheolwyr gweithredu yn casglu'r wybodaeth perfformiad ganlynol:

- Deilliannau personol cytunedig a chynlluniau cymorth sylfaenol ar gyfer pob person a gefnogwn.
- Yr holl achosion, pryderon, damweiniau, cwynion, achwyniadau a hysbysiadau, gyda manylion am sut cafodd y rhain eu hadrodd, sut y gweithredwyd arnynt a sut cawsant eu datrys.
- Y cymwysterau a'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan bob aelod o'r staff a'r dyddiadau pan gafodd y rhain eu cyflawni.
- Y cyflenwad o oriau cymorth o gymharu â'r oriau a gomisiynwyd ar gyfer, neu a brynwyd gan, bob person.
- Nifer yr oriau staff sydd ar gael i fodloni'r oriau cymorth gofynnol, lefelau absenoldeb a'r gyfradd drosiant yn cynnwys y rhesymau pam mae staff yn gadael.
- Y camau rheoli a gymerir gan y Rheolwyr Rhwydwaith Cofrestredig a'r Rheolwyr Cartrefi Gofal Cofrestredig i fynd i'r afael â materion a gwella'r gwasanaeth.

Caiff y wybodaeth hon ei hasesu yn erbyn meini prawf Coch, Ambr, Gwyrdd cytunedig sy'n ein galluogi i:

- ddathlu a nodi ble mae gwasanaethau yn perfformio'n dda i bobl
- nodi pa faterion mae angen mynd i'r afael â nhw ac nad ydynt yn cael eu datrys
- gweithredu lle mae angen gweld gwelliant.

Mae unigolion sy'n byw yn Nhir Morfa yn dweud wrthym beth yw eu barn am eu bywydau a chefnogaeth trwy ein Hasesiad Lles Personol. Rydym yn casglu adborth gan staff am eu barn am eu cyflogaeth trwy ein Harolwg Cyflogeion Blynyddol. Mae ein Comisiynwyr hefyd yn dweud wrthym beth yw eu barn am ein gwasanaethau trwy Adolygiadau Gwasanaeth.

Rheolwyr Cymorth Personol / Rheolwyr Cartrefi Gofal Cofrestredig Cynhelir Fforymau a Fforymau Staff Ategol bob 3 mis. Bydd adroddiadau a chynlluniau o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli.

**Gwneud cwynion**

Gall unigolion yn Nhir Morfa wneud cwynion mewn nifer o ffyrdd:




- Gellir gwneud cwyn i unrhyw aelod o staff y Consortiwm Bywydau Cymunedol. Mae hyn yn golygu y gall unigolion siarad â pha rai bynnag o'r aelodau staff maen nhw'n teimlo'n fwyaf cyffyrddus gyda nhw.
- Gwneud cwyn ar lafar, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.
- Gall unigolion wneud cwyn mewn ysgrifen, trwy lythyr, e-bost neu destun neges
  E-bost - complaints@communitylives.org neu destun - 07814779935.

Bydd y Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig yn Nhir Morfa yn gweithio gyda'r Unigolyn i ddatrys y gŵyn. Bydda nhw'n gwneud hyn o fewn 14 diwrnod, neu 28 diwrnod. Byddan nhw'n cytuno â'r unigolyn ar gofnod ysgrifenedig o sut cafodd y gŵyn ei datrys.

Os yw'r unigolyn eisiau i rywun sy'n annibynnol oddi wrth Dir Morfa ddatrys eu cwyn, yna gallwn ofyn i swyddog ymchwilio drefnu hyn. Byddan nhw'n cytuno ar adroddiad gyda'r achwynydd ynglŷn â'r ymchwiliad a beth maen nhw wedi ei ddarganfod. Gallai hyn gymryd hyd at 35 diwrnod. Os bydd hyn yn cymryd mwy o amser, bydd yr achwynydd yn cael gwybod.

Gall unigolion ofyn i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ddatrys eu cwyn hefyd:



- Gellir cysylltu â thîm cwynion Dinas a Sir Abertawe ar 01792 637345, neu drwy anfon e-bost at complaints@swansea.gov.uk



- Gellir cysylltu â thîm cwynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar 01639 763445, neu drwy anfon e-bost at complaints@npt.gov.uk

Gall yr unigolion sy'n byw yn Nhir Morfa gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru heftd, drwy ffonio 0300 790 0203 neu fynd i'w gwefan www.ombwdsmon.cymru.

Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Bydd Corff Llais y Dinesydd (Llais) yn cynrychioli lleisiau a barn pobl Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. nptandswansea.enquiries@llaiscymru.org

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care